

**THE WELSH MINISTERS (THE FISHGUARD TO BANGOR TRUNK ROAD (A487)
(CAERNARFON AND BONTNEWYDD BYPASS)) (SUPPLEMENTARY) COMPULSORY
PURCHASE ORDER 201-**

STATEMENT OF REASONS

1. INTRODUCTION

The Welsh Ministers, as the relevant highway authority, are responsible for all trunk roads in Wales. The A487 trunk road is an important part of the Welsh Government's (WG) strategic road network and it serves as the major north/south route along the west Wales coast linking Fishguard, Cardigan, Aberystwyth, Machynlleth, Dolgellau, Porthmadog, Caernarfon and Bangor.

The proposed scheme will provide a new 9.70km highway commencing at the most north westerly point of the existing A487 trunk road roundabout known as Goat Roundabout (A499/A487 junction) and terminating at the Plas Menai Roundabout. It forms a western bypass to Llanwnda, Dinas and Bontnewydd before crossing the existing A487 to pass south of Caernarfon Quarry. It then crosses the Afon Seiont, passes south of the Cibyn Industrial Estate to a junction with the A4086. After crossing the B4366 the route drops steeply to the Plas Menai Roundabout. A Wide Single 2+1 standard has been adopted consisting of two lanes of travel in one direction and a single lane in the opposite direction providing overtaking opportunities in the two lane direction while overtaking in the single lane direction is prohibited. There are 29 structures within the scheme comprising 7 bridges (including a crossing over the Welsh Highland Railway, a 260m bridge over the Afon Gwyrfaï and a 148m bridge over the Afon Seiont), 8 culverts and 14 large diameter pipes.

The draft Orders already published comprise:

- a. The draft Line and De-Trunking Order, , to provide for the construction of a new length of Trunk Road and the de-trunking of existing lengths of Trunk Road and slip roads.
- b. The draft Side Roads Order, now published, to stop up lengths of superseded trunk road and to stop up, improve, create or alter other roads, footpaths, cycle routes, bridleway and private accesses.
- c. The draft Compulsory Purchase Order (CPO), to provide for the acquisition of the land and rights required for the construction and maintenance of the scheme.

An Environmental Statement (ES) has been prepared and published in association with the above Orders and is available for inspection. This project is subject to an Environmental Impact Assessment (EIA) in accordance with Section 105A of the Highways Act 1980 and EC Directive 2011/92/EU.

In accordance with Regulation 61 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010, a Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA) has been prepared and published on the possible impacts associated with the Scheme on the Afon Gwyrfaï and Llŷn Cwellyn SAC (Special Area of Conservation), Menai Strait and Conwy Bay SAC, Glynllifon SAC, Meirionnydd Oakwoods and Bat Sites SAC and Gwydir Forest Mines SAC. This is available in Appendix E2 in Volume 3 of the ES.

The ES describes the proposals, identifies the main environmental effects on both the manmade and natural environment and describes the proposed measures to avoid, remedy or reduce impacts and provide environmental enhancement where relevant.

The ES is reported in four parts:

- The Non-Technical Summary
- Volume 1 – Technical Assessment Report
- Volume 2 – Figures

- Volume 3 – Technical Appendices

Volume 1 is the main technical assessment report, which details the methodologies and results of the EIA. It sets out ways in which identified impacts can be effectively mitigated. Volume 2 is a set of supporting figures which should be read alongside Volume 1. Volume 3 is a set of technical appendices which should also be read alongside Volume 1.

2. THE DRAFT COMPULSORY PURCHASE ORDER AND THE DRAFT SUPPLEMENTARY COMPULSORY PURCHASE ORDER

The full title of the draft CPO published under the Highways Act 1980 and the Acquisition of Land Act 1981 on 14th September 2016 is as follows:

THE WELSH MINISTERS (THE FISHGUARD TO BANGOR TRUNK ROAD (A487)
(CAERNARFON AND BONTNEWYDD BYPASS) COMPULSORY PURCHASE ORDER 201-

The full title of the draft Supplementary CPO now published under the Highways Act 1980 and the Acquisition Act of Land 1981 is :

THE WELSH MINISTERS (THE FISHGUARD TO BANGOR TRUNK ROAD (A487)
(CAERNARFON AND BONTNEWYDD BYPASS) (SUPPLEMENTARY) COMPULSORY
PURCHASE ORDER 201-

3. BACKGROUND TO THE PROJECT

The Background to the project is given in the Statement of Reasons for the draft CPO published on the 14th September 2016.

4. EXISTING CONDITIONS

A description of the existing conditions is given in the Statement of Reasons for the draft CPO published on 14th September 2016.

5. CONSULTATIONS

A summary of consultations leading up to the publication of the draft Orders was outlined in the Statement of Reasons for the draft CPO on the 14th September 2016. The public has been engaged on the proposals during a series of Statutory Orders Exhibitions held during September 2016. Since the publication of the draft Orders there has been further engagement with stakeholders and interested parties.

The Local Planning Authorities and land owners have been consulted with during the Statutory Orders Exhibitions held in September 2016, and since then during development of the proposals that relate to the draft Supplementary CPO through meetings and correspondence.

There will be a Public Local Inquiry into the proposed Scheme, which will commence on 13 June 2017 at 10:00am. The draft Supplementary CPO will be presented to the inspector and considered as part of the inquiry.

6. SCHEME OBJECTIVES

The Objectives of the proposed Scheme are given in the Statement of Reason for the draft CPO published on the 14th September 2016.

7. THE PROPOSED SCHEME

A description of the Proposed Scheme was outlined in the Statement of Reasons for the draft CPO published on the 16th September 2016.

A description of proposals contained within the draft Supplementary CPO is given in section 8 of this Statement of Reasons.

8. DESCRIPTION OF PROPOSALS CONTAINED IN THE DRAFT SUPPLEMENTARY COMPULSORY PURCHASE ORDER

Following the publication of the draft CPO in September 2016, and further to the comments raised by NRW, it was noted that the proposed mammal pass at approximately chainage 8800m was incorrectly positioned such that the entrance was in a position which would have allowed ingress of water. The mammal underpass (which was proposed in the previous draft Orders) is required to allow the passage of mammals (including Otters) beneath the Fynnon Fair Side Road and the new A487 bypass. Passes of this nature are required to reduce incidents of mammal mortality on new highways. This is covered by the ES and SIAA and is covered in Section 9 of this Statement. The mammal pass must be dry in order for it to be accessible to mammals. In order to prevent the ingress of water, this additional land is required to construct the entrance to the pass in a new position and to construct an earthwork to prevent the water entering the mammal pass. The land will also allow the installation of associated fencing to ensure the effectiveness of the mammal pass.

9. IMPACT ON THE ES AND SIAA

The draft Supplementary CPO will not alter the conclusions of the ES or the SIAA as the increase in land take is negligible and does not directly affect any Natura 2000 designated sites. The additional land take in relation to the bund at Crug Farm is required to ensure the success of mitigation measures in relation to otters and as such supports the conclusion of both the ES and SIAA.

10. THE CASE FOR COMPULSORY PURCHASE

The draft Supplementary CPO is published under the Highways Act 1980 and the Acquisition of Land Act 1981.

The draft Supplementary CPO if made, will also enable the position of some access points to be altered. The draft Orders taken together will, if made, enable the construction of appropriate environmental mitigation measures and alternative means of access to land affected by the Scheme.

The amount of land identified in the draft CPO is considered to be the minimum necessary to construct and subsequently operate and maintain the proposed scheme together with the provisions and maintenance of the environmental mitigation measures.

In drawing up the proposals for the draft Supplementary CPO regard has been given to the interference with the rights of all those with interests in the draft Supplementary CPO and who would otherwise be affected by the proposed scheme.

Further consideration has been given to the proposed Scheme, which was outlined in the Statement of Reasons for the Compulsory Purchase Order as published on the 14th September 2016 as a result of comments made in response to the draft Orders or new information being made available.

11. DRAFT ORDERS

The Welsh Ministers do not require planning permission to carry out the proposed Scheme. The powers to construct the new sections of trunk roads and to de-trunk parts of the trunk roads, would be obtained through the draft 'The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (Caernarfon and Bontnewydd Bypass and De-Trunking) Order 201-', published on 24 August 2016.

The Welsh Ministers are empowered as the highway authority for trunk roads in Wales, to undertake improvements to the existing trunk road under section 62 of the Highways Act 1980. The power to stop up, alter, improve highways, , footpaths and private means of access and to construct new highways , public footpaths and private means of access would be obtained through the draft 'The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (Caernarfon and Bontnewydd Bypass) (Side Roads) Order 201-', published on 24 August 2016.

12. DEPOSIT POINTS

Copies of the published draft Orders, accompanying plans, maps, statements, the Environmental Statement, SIAA, the Non-Technical Summary, Determination Notice and the Stage 3 Scheme Assessment Report together with supplementary CPO now published and its Map and Statement of Reasons, may be inspected free of charge during normal working hours at any of the following deposit points:

- Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ;
- Welsh Government Offices, Sarn Mynach, Llandudno Junction, Conwy LL31 9RZ;
- Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, LL55 1SH; and
- Caernarfon Library, Pavilion Hill, Caernarfon, LL55 1AS.

Additional copies of the Non-Technical Summary (NTS) and Stage 3 Scheme Assessment Report (SAR) containing the information associated with the original draft Orders, may be obtained from any of the above venues.

13. LODGING OBJECTIONS TO THE DRAFT CPO

Any person wishing to object to the draft supplementary CPO may do so by writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ quoting reference No. qA1198563 and stating the grounds of the objection.

Please Note: Should you wish to object, support or make representations your correspondence will be considered by the Project Team and we may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given to us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you brought to our attention. Where a Trunk Road Scheme becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the PI and is kept in the PI Library and is publicly available. Letters should be despatched to arrive no later than the 05 July 2017.

11. DECISION PROCESS

The decision as to whether or not to proceed to make the draft CPO incorporating the supplementary CPO will be taken by the Welsh Ministers after taking account of any responses to it, and the related Line Order and Side Roads Order and Environmental Statement and the findings of the independent Inspector, at the Public Inquiry that will commence on 13 June 2017.

Should the draft CPO incorporating the supplementary CPO be made and the scheme proceed to construction, the Welsh Ministers will, through their valuation agent, enter into negotiation with all affected landowners regarding compensation for the land needed and where appropriate the carrying out of accommodation works on their retained land to ameliorate the effect of the scheme.

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL 201 GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD
ABERGWAUN I FANGOR (YR A487) (FFORDD OSGOI CAERNARFON A BONTNEWYDD)
(ATODOL)**

DATGANIAD O RESYMAU

1. CYFLWYNIAD

Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod priffyrdd perthnasol, sy'n gyfrifol am holl gefnffyrdd Cymru. Mae cefnffordd yr A487 yn rhan bwysig o rwydwaith ffyrdd strategol Llywodraeth Cymru a hi yw'r prif lwybr gogledd/de ar hyd arfordir gorllewin Cymru sy'n cysylltu Abergwaun, Aberteifi, Aberystwyth, Machynlleth, Dolgellau, Porthmadog, Caernarfon a Bangor.

Bydd y cynllun arfaethedig yn darparu 9.70 cilometr o briffordd newydd gan ddechrau ar y pwynt mwyaf gogledd-orllewinol o gefnffordd bresennol yr A487 a elwir yn Gylchfan y Goat (cyffordd A499/A487) a dod i ben ar Gylchfan Plas Menai. Mae'n ffurfio ffordd osgoi orllewinol i Lanwnda, Dinas a Bontnewydd cyn croesi'r A487 bresennol gan fynd heibio i'r de o Chwarel Caernarfon. Mae wedyn yn croesi Afon Seiont, yn mynd heibio i'r de o Ystâd Ddiwydiannol Cibyn hyd at gyffordd â'r A4086. Ar ôl croesi'r B4366, mae'r llwybr yn disgyn i lawr yn serth i Gylchfan Plas Menai. Mae safon Sengl Lydan 2+1 wedi'i mabwysiadu sy'n cynnwys dwy lôn yn teithio i un cyfeiriad a lôn sengl i'r cyfeiriad arall, gan ddarparu cyfleoedd i oddiweddyd i'r cyfeiriad lle y ceir dwy lôn, a goddiweddyd wedi'i wahardd i gyfeiriad y lôn sengl. Mae 29 adeiledd yn y cynllun sy'n cynnwys 7 pont (gan gynnwys croesfan dros Reilffordd Ucheldir Cymru, pont 260 metr dros Afon Gwyrfaï a phont 148 metr dros Afon Seiont), 8 ceuffos a 14 o bibau diamedr mawr.

Mae'r Gorchymynion drafft sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yn cynnwys:

- a. Y Gorchymyn Llinell a Thynnu Statws Cefnffordd drafft, i ddarparu ar gyfer adeiladu hyd newydd o Gefnffordd a thynnu statws cefnffordd oddi ar gefnffyrdd a ffyrdd ymuno/ymadael presennol.
- b. Y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft, sydd wedi'i gyhoeddi erbyn hyn, i gau cefnffyrdd a ddisodlwyd a chau, gwella, creu neu newid ffyrdd eraill, llwybrau cerdded, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a mynedfeydd preifat.
- c. Y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, i ddarparu ar gyfer caffael tir a hawliau gofynnol ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw'r cynllun.

Mae Datganiad Amgylcheddol wedi'i baratoi a'i gyhoeddi mewn cysylltiad â'r Gorchymynion uchod ac mae ar gael i'w archwilio. Mae'r prosiect hwn yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol ag Adran 105A o Ddeddf Priffyrdd 1980 a Chyfarwyddeb y CE 2011/92/EU.

Yn unol â Rheoliad 61 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, lluniwyd a chyhoeddwyd Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol ar yr effeithiau posibl sydd ynghlwm â'r Cynllun ar Afon Gwyrfaï ac ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) Llŷn Cwellyn, Afon Menai ac ACA Bae Conwy, ACA Glynllifon, ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion, ac ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydir. Mae hyn ar gael yn Atodiad E2 yng Nghyfrol 3 y Datganiad Amgylcheddol.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio'r cynigion, yn nodi'r prif effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd naturiol a dynol, ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, adfer neu leihau'r effeithiau a darparu gwelliant amgylcheddol pan fo'n briodol.

Adroddir y Datganiad Amgylcheddol mewn pedair rhan:

- Crynodeb Annhechnegol
- Cyfrol 1 - Adroddiad o'r Asesiad Technegol
- Cyfrol 2 - Ffigurau
- Cyfrol 3 - Atodiadau Technegol

Cyfrol 1 yw'r prif adroddiad o'r asesiad technegol, sy'n rhoi manylion dulliau a chanlyniadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'n nodi ffyrdd o liniaru yn effeithiol yr effeithiau a nodwyd. Cyfres o ffigurau ategol yw Cyfrol 2 y dylid eu darllen ochr yn ochr â Chyfrol 1. Cyfres o atodiadau technegol yw Cyfrol 3 y dylid eu darllen ochr yn ochr â Chyfrol 1.

2. Y GORCHYMYN PRYNU GORFODOL DRAFFT A'R GORCHYMYN PRYNU GORFODOL ATODOL DRAFFT

Teitl llawn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft sydd wedi'i gyhoeddi o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981 ar 14 Medi 2016 yw:

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL 201 GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD ABERGWAUN I FANGOR (YR A487) (FFORDD OSGOI CAERNARFON A BONTNEWYDD)

Teitl llawn y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft sydd wedi'i gyhoeddi erbyn hyn o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981 yw:

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL 201 GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD ABERGWAUN I FANGOR (YR A487) (FFORDD OSGOI CAERNARFON A BONTNEWYDD) (ATODOL)

3. CEFNDIR Y PROSIECT

Nodir Cefndir y prosiect yn y Datganiad o Resymau ar gyfer y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft a gyhoeddwyd ar 14 Medi 2016.

4. AMODAU PRESENNOL

Rhoddir disgrifiad o'r amodau presennol yn y Datganiad o Resymau ar gyfer y Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft a gyhoeddwyd ar 14 Medi 2016.

5. YMGYNGHORIADAU

Amlinellwyd crynodeb o'r ymgynghoriadau a arweiniodd at gyhoeddi'r Gorchymynion drafft yn y Datganiad o Resymau ar gyfer y gorchymyn prynu gorfodol drafft a gyhoeddwyd ar 14 Medi 2016. Ymgysylltwyd â'r cyhoedd yn rhan o'r cynigion yn ystod y gyfres o Arddangosfeydd o'r Gorchymynion Statudol a gynhaliwyd yn ystod mis Medi 2016. Ers cyhoeddi'r Gorchymynion drafft, bu rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhai â budd.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a pherchnogion tir yn ystod yr Arddangosfeydd o'r Gorchymynion Statudol a gynhaliwyd ym mis Medi 2016, ac ers hynny wrth ddatblygu'r cynigion sy'n ymwneud â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft, drwy gyfarfodydd a gohebiaeth.

Bydd Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus i'r Cynllun arfaethedig, a bydd yn dechrau ar 13 Mehefin 2017 am 10:00am. Bydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft yn cael ei gyflwyno i'r arolygydd a'i ystyried yn rhan o'r ymchwiliad.

6. AMCANION Y CYNLLUN

Nodir Amcanion y Cynllun arfaethedig yn y Datganiad o Resymau ar gyfer y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft a gyhoeddwyd ar 14 Medi 2016.

7. Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

Amlinellwyd disgrifiad o'r Cynllun Arfaethedig yn y Datganiad o Resymau ar gyfer y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2016.

Nodir disgrifiad o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft yn adran 8 y Datganiad o Resymau hwn.

8. DISGRIFIAD O'R CYNIGION SYDD WEDI'U CYNNWYS YN Y GORCHYMYN PRYNU GORFODOL ATODOL DRAFFT

Yn dilyn cyhoeddiad y Gorchymyn Prynu Gorfodol fis Medi 2016, ac yn dilyn sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru, nodwyd bod y dramwyfa arfaethedig i famaliaid ar gadwynedd 8800 metr yn fras, wedi'i lleoli'n anghywir a bod y fynedfa mewn man a fyddai'n gadael dŵr i mewn. Mae angen y danffordd i famaliaid (a gynigwyd yn y Gorchymynion drafft blaenorol) er mwyn galluogi mamaliaid i deithio (gan gynnwys Dyfrgwn) o dan Ffordd Ymyl Ffynnon Fair a ffordd osgoi newydd yr A487. Mae angen tramwyfeydd o'r fath er mwyn lleihau nifer y marwolaethau ymhlith mamaliaid ar briffyrdd newydd. Trafodir hyn yn y Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol ac yn Adran 9 y Datganiad hwn. Mae'n rhaid i'r dramwyfa i famaliaid fod yn sych er mwyn iddi fod yn addas i famaliaid. Er mwyn atal dŵr rhag dod i mewn, mae angen y tir ychwanegol hwn i adeiladu'r fynedfa i'r dramwyfa mewn lleoliad gwahanol ac i adeiladu gwrthglawdd i atal y dŵr rhag llifo i'r dramwyfa i famaliaid. Bydd y tir hefyd yn caniatáu ar gyfer gosod ffensys cysylltiedig er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y dramwyfa i famaliaid.

9. EFFAITH AR Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL A'R DATGANIAD I HYSBYSU ASESIAD PRIODOL

Ni fydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft yn newid casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol na'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, oherwydd bod y cynnydd yn y tir a gymerir yn ddiwbys ac nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw safleoedd dynodedig Natura 2000. Mae angen cymryd y tir ychwanegol o ran y bwnd yn Fferm Crug er mwyn sicrhau llwyddiant mesurau lliniaru o ran dyfrgwn, ac felly mae'n ategu casgliad y Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol.

10. YR ACHOS AR GYFER PRYNU GORFODOL

Mae'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft wedi'i gyhoeddi o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981.

Bydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft, os caiff ei weithredu, hefyd yn galluogi addasu lleoliad rhai o'r pwyntiau mynediad. Bydd y Gorchymynion drafft, ar y cyd, os cânt eu gweithredu, yn galluogi adeiladu mesurau lliniaru amgylcheddol priodol a dulliau mynediad eraill i dir y mae'r Cynllun yn effeithio arno.

Ystyrir bod tir a nodir yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft y maint lleiaf sydd ei angen i lunio ac wedyn gweithredu a chynnal y cynllun arfaethedig ynghyd â darpariaeth a chynnal mesurau lliniaru amgylcheddol.

Wrth lunio'r cynigion ar gyfer y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft, rhoddwyd ystyriaeth i'r amhariad ar hawliau pawb sydd â budd yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft ac y byddai'r cynllun arfaethedig yn effeithio arnynt fel arall.

Rhodddwyd rhagor o ystyriaeth i'r Cynllun arfaethedig, a amlinellwyd yn y Datganiad o Resymau ar gyfer y Gorchymyn Prynu Gorfodol a gyhoeddwyd ar 14 Medi 2016 o ganlyniad i sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r Gorchmynion drafft neu wybodaeth newydd yn dod i law.

11. GORCHMYNION DRAFFT

Nid oes angen caniatâd cynllunio ar Weinidogion Cymru i gyflawni'r Cynllun arfaethedig. Byddai'r pwerau i adeiladu'r rhannau newydd o gefnffyrdd a thynnu statws cefnffordd oddi ar rannau eraill o'r cefnffyrdd, ar gael trwy'r Gorchymyn 201 Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) drafft a gyhoeddwyd 24 Awst 2016.

Mae gan Weinidogion Cymru, fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd yng Nghymru, y pŵer i wneud gwelliannau i'r gefnffordd bresennol o dan adran 62 Deddf Priffyrdd 1980. Byddai'r pŵer i gau, addasu, gwella priffyrdd, llwybrau troed a phwyntiau mynediad preifat ac adeiladu priffyrdd newydd, llwybrau troed a phwyntiau mynediad preifat, ar gael trwy'r Gorchymyn 201 Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) (Ffyrdd Ymyl) drafft a gyhoeddwyd 24 Awst 2016.

12. MANNAU CADW

Mae copïau o'r Gorchmynion drafft cyhoeddedig, cynlluniau cysylltiedig, mapiau, datganiadau, y Datganiad Amgylcheddol, y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, Hysbysiad o Benderfyniad ac Adroddiad Asesu'r Cynllun Cam 3, ynghyd â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol atodol sydd wedi'i gyhoeddi erbyn hyn a'r Datganiad o Resymau, ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn ystod oriau gwaith arferol yn y manau cadw canlynol:

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;
- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ;
- Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH; a
- Llyfrgell Caernarfon, Lôn Pafiliwn, Caernarfon, LL55 1AS.

Mae copïau ychwanegol o'r Crynodeb Annhechnegol ac Adroddiad Asesiad y Cynllun Cam 3 sy'n cynnwys yr wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Gorchmynion drafft gwreiddiol, ar gael o unrhyw un o'r lleoliadau uchod.

13. CYFLWYNO GWRTHWYNEBIADAU I'R GORCHMYN PRYNU GORFODOL DRAFFT

Caiff unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft wneud hynny yn ysgrifenedig i'r Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1198563 a nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.

Noder: Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, bydd Tim y Prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac efallai bydd angen i ni gysylltu â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Yn rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol oni bai bod angen gwneud hynny er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion y gwnaethoch eu dwyn i'n sylw. Pan fo Cynllun Cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus, caiff Arolygydd yr Ymchwiliad Cyhoeddus gopi o bob gohebiaeth a chaiff ei chadw yn Llyfrgell yr Ymchwiliad Cyhoeddus, a bydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Dylid anfon llythyrau i sicrhau eu bod yn ein cyrraedd erbyn 05 Gorffennaf 2017 fan bellaf.

11. Y BROSES BENDERFYNU

Penderfyniad Gweinidogion Cymru fydd parhau i wneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft gan ymgorffori'r Gorchymyn Prynu Gorfodol atodol ai peidio ar ôl iddynt ystyried unrhyw ymatebion iddo, yn ogystal â'r Gorchymyn Llinell a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Datganiad Amgylcheddol cysylltiedig a chanfyddiadau'r Arolygydd annibynnol, yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus a fydd yn cychwyn ar 13 Mehefin 2017.

Os caiff y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft sy'n ymgorffori'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol ei weithredu, a bod y cynllun yn symud ymlaen i'w adeiladu, bydd Gweinidogion Cymru, trwy eu hasiant prisio, yn cychwyn trafodaethau â'r holl berchnogion tir perthnasol ynghylch iawndal am y tir y bydd ei angen, a, phan fo'n briodol, gwneud gwaith addasu ar y tir y bydd y perchnogion yn ei gadw er mwyn lliniaru effaith y cynllun.